# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2023**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN SYLFAENOL**
**3010N10-1**

© WJEC CBAC Cyf.

## RHAGARWEINIAD

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2023. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN SYLFAENOL**

**GAEAF 2023 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Y Sbectol Hud**

- Mae'r bardd yn disgrifio cyfres o olygfeydd sy'n ddi-liw ac yn anobeithiol. Mae'r golygfeydd i gyd yn deillio o'r byd naturiol o'n cwmpas. Ceir cyfres o baradocsau sy'n cychwyn gan sôn am fethu â gweld y sêr oherwydd ei bod hi'n ddydd, cyn cyferbynnu hynny â'r nos yn dwyn goleuni'r dydd.
- Disgrifir amgylchiadau'r tywydd sy'n cuddio rhannau o'r tirlun e.e. y niwl sy'n gorchuddio'r bryniau neu'r eira dros y llwyni. Mae hyd yn oed y diferion glaw yn ymddangos fel dagrau ar hyd y blodau gan ychwanegu at dristwch y darlun.
- Ond yna, ar ddiwedd yr wythawd cyntaf, daw dechrau'r newid agwedd drwy awgrymu fod yna ateb i wella'r holl ddarluniau negyddol hyn. Awgryma'r bardd y dylai'r darllenydd wisgo ei 'sbecs dychymyg' a dyma esbonio ystyr teitl y gerdd.
- Yn dilyn y volta, daw rhagor o gyfarwyddyd cyfeillgar gan y bardd, fel pe bai'n rhoi cyngor caredig i ffrind. Awgryma y dylid cadw'r 'sbectol hud yn agos o hyd – "ym mhoced ôl dy jîns".
- Daw neges y gerdd yn y cwpled clo pan ddywedir y bydd defnyddio sbectols dychymyg yn ei gwneud yn bosibl i'r sawl sy'n edrych drwyddynt weld y byd mewn lliw ar unrhyw adeg, beth bynnag fo'r amgylchiadau.

**Tân Gwyllt**

- Mae'r gerdd yn agor trwy greu darlun o Dachwedd y pumed a noson tân gwyllt. Mae hi'n nos ond mae gwreichion o'r tân yn creu awyrgylch gynnes a lliwiau cyfoethog ar y gorwel.
- Mae'r synhwyrau'n effro yma wrth i'r bardd ddisgrifio sŵn a lliw'r noson, a'r teulu yn mwynhau yng nghanol cyffro'r rocedi sy'n llenwi'r awyr gyda'u sain a'u 'cawodydd' lliw.
- Noson amryliw yw hon a'r uchafbwynt yw gwylio Guto Ffowc yn llosgi ar y tân a'r plant yn gweiddi yn eu cyffro.
- Ond yna, mae popeth yn tawelu a holl hwyl y noson wedi darfod. Does dim rhagor o fflamau na lliwiau deniadol, ond yn eu lle ceir 'llwch' a 'lliwiau llwyd' ac yn ogystal â hynny, mae hi'n ddistaw iawn ar ôl yr holl rialtwch. Mae'r haul yn ei ôl ac mae hi'n ddydd unwaith eto a theimlir ychydig o hiraeth am holl gyffro'r noson cynt sydd fel pe bai wedi dod i ben yn rhy gyflym.

**Pwyntiau cymharu cynnwys:**

- Dwy gerdd synhwyrus sy'n creu disgrifiadau o'r pethau o'n cwmpas. Ar y naill law mae Mererid Hopwood yn disgrifio golygfeydd digalon a thywyll byd heb y sbectol, ac ar y llaw arall, mae Tudur Dylan Jones yn disgrifio noson tân gwyllt sy'n llawn lliw a chyffro.
- Cyfres o ddisgrifiadau o'r byd naturiol sydd yn 'Y Sbectol Hud' tra mae 'Tân Gwyllt' yn ymwneud â gweithgareddau mwy dynol, fel rocedi a choelcerth a Guto Ffowc.
- Y Sbectol Hud yn fwy uniongyrchol yn cyfarch unigolyn ac yn cynnig cyngor fel pe bai'n sgwrs rhwng dau ffrind, a'r gerdd Tân Gwyllt yn disgrifio noson deuluol o safbwynt gwrthrychol.
- Yr elfen o drafod 'nos a dydd' yn y ddwy gerdd – y 'nos ar goll' yn un gerdd a'r llall yn sôn am 'yr haul ar goll'. Pwysleisir y cyferbyniad rhwng nos a dydd yn y ddwy gerdd.
- Dymuniad yn y ddwy gerdd am allu gweld lliwiau'n llawn a'u gwerthfawrogi. Mae Y Sbectol Hud yn dangos sut y gellir gwneud hynny drwy fyd dychymyg, ond ar y llaw arall, mae Tân Gwyllt yn llwyddo i wneud hynny mewn gwirionedd drwy fwynhau noson Tachwedd y pumed.
- Y soned yn dweud nad ydym yn gweld 'rhyfeddodau'r byd' ar adegau ond yn y cywydd, dywedir fod mis Tachwedd yn 'llawn rhyfeddod' i'r plentyn bach ar noson Tân Gwyllt.
- Y naill gerdd yn gorffen yn llawn lliw a phosibiliadau, tra mae'r llall yn gorffen yn llwyd, ond eto mae haul y dydd yn ei ôl i gynnig gwres a chysur. Efallai fod awgrym yn Tân Gwyllt y gellir dal gafael ar y lliwiau yn ein hatgofion am ddigwyddiadau fel hyn.



© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull: Y Sbectol Hud**

- Personoli – blodau trist
- Tafodiaith – cwato
- Ail adrodd – pan fydd...
- Berf orchmynnol – rho
- Mesur – soned (rhydd)

**Arddull: Weithiau**

- Ansoddair – gwreichion <u>cynnes</u>
- Synhwyrau – 'sŵn y lliw'
- Sŵn y gynghanedd / Cyflythreniad – cawodydd cleciadau
- Cyffelybiaeth– cawodydd o rocedi fel glaw dur
- Rhestru – oren ac aur, yna gwyn.....coch
- Ail adrodd – weithiau
- Mesur – cywydd (caeth)

**Neges:**

**Y Sbectol Hud**: Pan fydd pethau'n ymddangos yn ddigalon ac yn ddiflas yn ein bywyd, mae angen i ni ddefnyddio ychydig o ddychymyg er mwyn dod â lliw a hapusrwydd yn ôl i'n bywydau. Mae'r grym a'r dewis yn nwylo'r unigolyn.

**Tân Gwyllt**: Mae digwyddiadau teuluol, llawn hwyl a lliw a mwynhad yn digwydd ac yn darfod mor gyflym. Rhaid eu mwynhau a dal gafael yn yr atgofion pan fydd popeth yn llwyd a thawel unwaith eto.



© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos ymateb personol eithaf da<br>Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>Cymharu testunau'n eithaf da<br>*Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>*Arddangos gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **21-30** | Dangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ddefnyddio termau beirniadaeth lenyddol<br>Dangos peth ymateb personol<br>Defnyddio dyfyniadau addas<br>Ymgais i gymharu testunau<br>*Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>*Gafael anghyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | Ymgais i ddangos dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Ymgais i drafod addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>Ymgais i ymateb yn bersonol<br>Defnyddio ambell ddyfyniad<br>Peth ymgais i gymharu testunau<br>*Dangos trefn mewn rhannau o'r gwaith*<br>*Peth gallu i sillafu, atalnodi a defnyddio gramadeg yn gywir* |
| **0-10** | Ymgais i ddangos peth dealltwriaeth o'r cynnwys a'r neges/thema<br>Cyfeirio at arddull/iaith i greu awyrgylch<br>Dechrau ymateb yn bersonol<br>Ymgais i ddefnyddio ambell ddyfyniad<br>*Ymgais at ddilyniant*<br>*Gafael gyfyngedig ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.